| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **20 Gorffennaf 2023** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Cynghorydd Gill German (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd), Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Awduron yr adroddiad** | **Geraint Davies a Joseph Earl** |
| **Teitl** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Gorffennaf 2023** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf eto am y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni'r gofynion statudol sydd arnynt o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn barod i fodloni'r gofynion statudol sydd arnynt o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a ddechreuodd ym mis Medi 2021 ac sydd ar waith tan 2025. (Yn dilyn cyhoeddiad gan y Gweinidog ynglŷn ag amserlenni gweithredu.)

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnir gwahoddiad i aelodau Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agwedd ar y gwaith trawsnewid a allai elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cyd-destun

4.1. Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002), sydd mewn grym ar hyn o bryd. Ategir y Ddeddf newydd gan reoliadau a Chod ADY. Mae'r Ddeddf yn disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' (AAD) gyda'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY). Bydd hyn yn disodli cynlluniau presennol, megis Cynlluniau Addysg Unigol, Datganiadau AAA a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau.

## Cynnydd

4.2. **Rhanbarthol** – Mae Sir Ddinbych yn parhau i weithio ar y cyd gyda chydweithwyr ledled y rhanbarth a chyda chefnogaeth gan yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol (Elizabeth Jones). Mae'r gweithgorau rhanbarthol cychwynnol wedi dod i ben bellach, ond mae Sir Ddinbych yn parhau i gydweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol ar lefelau gweithredol a strategol pan fo angen.

4.3. **Hyfforddiant** – Mae hyfforddiant ar ddiwygiadau ADY yn parhau i gael ei ddarparu i dimau'r awdurdod lleol (ALl) pan fo angen. Mae'r ALl yn parhau i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion lle bo'r angen. Yng nghyfarfodydd diweddar Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) mae systemau a phrosesau ysgolion wedi eu trafod, eu rhannu a'u harchwilio, a chafwyd gweithdy ar ysgrifennu Cynlluniau Datblygu Unigol.

4.4. **Cyllidebau** – Mae cyllid Cynhwysiant Ysgolion (yn cynnwys ADY) wedi'i ddirprwyo'n llawn i ysgolion fel y cytunwyd yn y fforwm cyllideb ysgolion. Mae hyn yn gweithio tuag at gyfartaledd treigl 3 blynedd yn dilyn Mapio Darpariaeth cymedroli gan ysgolion. Y nod yw caniatáu i ysgolion gynllunio'n fwy effeithiol i gefnogi dysgwyr y nodwyd bod arnynt angen cefnogaeth ac i fod yn ymatebol i anghenion pob dysgwr. Yr ydym yn y broses o fireinio'r Map Darpariaeth y mae ysgolion yn ei ddefnyddio i gasglu'r wybodaeth hon.

4.5. **System TG** – Mae Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam bellach wedi rhoi'r system TG ranbarthol (system ADY Eclipse) ar waith sy'n eu galluogi i reoli'r prosesau ADY newydd. Yn y system TG ADY ranbarthol, Eclipse, ceir llif gwaith

sydd wedi ei greu'n benodol ar gyfer symud dysgwyr o system AAA i ADY er mwyn arwain ysgolion drwy'r broses. Mae TG Sir Ddinbych, ynghyd â chydweithwyr rhanbarthol, yn parhau i weithio ar fireinio'r system. Ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda'r cyflenwr, OLM, ar y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar-lein.

4.6. **Cefnogi'r Dysgwr** – Mae'r Tîm o Amgylch yr Ysgol wedi ei sefydlu er mwyn parhau i fodloni gofynion presennol y broses Asesu Statudol a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac atal, a nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gywir ac yn brydlon. Yr ydym bellach wedi cynnal adolygiad anffurfiol o'r gefnogaeth hon ac wedi diweddaru'r Cylch Gorchwyl yn unol â hynny.

4.7. **Darpariaeth** – Yr ydym yn parhau i weithio gydag ysgolion i lunio eu darpariaeth, gan gynnwys ymyraethau a strategaethau y maent yn eu defnyddio i gefnogi dysgwyr gydag ADY a dysgwyr heb ADY.

4.8. **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** – Yr ydym wedi bod yn cefnogi ysgolion gyda'r broses ystyried ADY lle bo angen. Mae ysgolion a'r ALl yn parhau i weithio ar symud dysgwyr o'r system AAA i'r system ADY. Eleni mae'r ALl wedi dechrau symud dysgwyr sydd â datganiadau AAA i CDU yn unol â chanllawiau ac amserlenni Llywodraeth Cymru.

4.9. **Dogfennau** – Mae dogfennau i gynorthwyo ysgolion yn parhau i gael eu llunio a'u mireinio lle bo'r angen. Mae hysbysiadau CDU / dim CDU a llythyrau ategol a ddatblygwyd yn rhanbarthol wedi eu rhannu ag ysgolion. Mae prosesau ar gyfer cefnogi dysgwyr – sydd ag ADY a heb ADY – yn Sir Ddinbych yn parhau i gael eu mireinio a'u rhannu gydag ysgolion. Mae'r ALl yn gweithio ar set o Egwyddorion yn ymwneud â chefnogi dysgwyr sydd ag ADY.

4.10. **Paratoi at yr Ysgol** – Parhawyd i gefnogi ysgolion gyda gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rhennir gwybodaeth mewn cyfarfodydd CADY, ochr yn ochr â hyfforddiant. Rhoddwyd cefnogaeth bwrpasol lle gofynnwyd am hynny, neu lle bo'n briodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rhywle y gall pobl ifanc ddysgu a datblygu mewn amgylchedd teg a diogel, a chael y cychwyn gorau mewn bywyd ni waeth pa anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae TGCh CSDd yn cefnogi Gwasanaethau Addysg ac ysgolion gyda system TG Eclipse. Byddwn yn parhau i ddefnyddio cyllid grant CDU Ar-lein Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda chostau parhaus cynnal y system TG.

6.2. Mae'r ALl yn parhau i ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ALl ac ysgolion i weithredu diwygiadau ADY. Eleni mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer gweithredu ADY o £6.6 miliwn i £12 miliwn, ac mae amserlenni'r gweithredu wedi eu hymestyn flwyddyn. Cydnabyddiaeth yw hyn o'r cynnydd yn y galw ar y gweithlu i ymateb i anghenion plant a symud plant o AAA i ADY, ochr yn ochr â sefydlu arferion addysg gynhwysol yn yr ysgol. Bydd y lefel hon o gyllid ar gael yn 2024-25 hefyd, a darperir dyraniad dangosol i awdurdodau lleol yn y misoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, mae cyllid grant ADY canolog yr ALl wedi aros yr un fath.

6.3 Seicolegwyr Addysg – Yn genedlaethol, deellir y bydd cynnydd yn y llwyth gwaith drwy gyflwyno, gweithredu a sefydlu diwygiadau ADY. Yn seiliedig ar y gymhareb a gymeradwyir yn genedlaethol o 1 Seicolegydd Addysg i 5,000 o blant, bydd CSDd angen 6 Seicolegydd Addysg [4 sydd ar hyn o bryd], cyllidebwyd ar gyfer 5. Mae Gwasanaeth Addysg Sir Ddinbych yn noddi aelod o staff drwy'r cwrs tair blynedd i'w galluogi i ddod yn Seicolegydd Addysg cymwys. Bydd wedyn yn dychwelyd i Sir Ddinbych i ymgymryd â swydd Seicolegydd Addysg cymwys fel siaradwr Cymraeg rhugl ym mis Medi 2026. Mae trefniant noddi'n golygu y bydd yn dychwelyd i Sir Ddinbych ar leoliad ym Mlynyddoedd 2 a 3. Mae peidio â chael digon o Seicolegwyr Addysg (yn enwedig rhai sy'n siarad Cymraeg) yn risg i ddyletswyddau deddfwriaethol allweddol yr Awdurdod, megis Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Dull Ysgol Gyfan tuag at

Les Emosiynol a Meddyliol, ac i agenda ‘Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr’. Mae LlC yn talu am 10 lle hyfforddi bob blwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd. Derbynnir mwy na 100 o geisiadau bob blwyddyn, a dilynir proses recriwtio drwyadl. Mae hefyd yn cynnig dau le heb eu hariannu ar y cwrs hwn yn dechrau fis Medi 2023.

6.4 Yn ddiweddar, yr ydym wedi gwneud y swydd Athro / Athrawes Ymgynghorol ADY dros dro yn swydd barhaol er mwyn ategu dyletswyddau’r ALl o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Yr ydym hefyd wedi recriwtio dau o athrawon ymgynghorol ADY dros dro i ategu’r gwaith o weithredu’r Cod ADY a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn yr ALl ac yn yr ysgolion.

6.5 Mae un Swyddog Cynhwysiant ar gyfer ADY wedi dechrau ymddeoliad hyblyg ac wedi gostwng ei oriau gweithio i ddau ddiwrnod yr wythnos.

# 7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Bydd angen Asesiad o Effaith ar Les fel arfer ar gyfer penderfyniadau neu gynigion am newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau’r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad effaith yn ymwneud â siwrnai Trawsnewid ADY.

# 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Bu trafodaethau (lle y bo’n berthnasol) ag undebau llafur a phenaethiaid yn gadarnhaol iawn. Yr ydym wedi gweithio’n rhanbarthol i sefydlu partneriaeth rieni fel fforwm i rannu a derbyn sylwadau am y gwaith parhaus ar ddiwygiadau ADY.

# 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Bydd costau yn cael eu diwallu o gyllidebau dirprwyedig sydd eisoes yn bodoli i ysgolion, cyllideb Addysg a hefyd cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Adroddwyd yn flaenorol am bwysau yn y tîm Seicoleg Addysg a thimau Anghenion Dysgu Ychwanegol, a lliniarwyd y risgiau fel y nodir yn adran 6.

10.2 Mae pwysau yn y tîm ADY oherwydd y trosglwyddiadau a oedd eu hangen a nifer yr achosion yn risg a leihawyd drwy recriwtio 2 aelod o staff dros dro.

10.3 Amlygwyd hyn fel risg o'r blaen, yn dilyn ymddeoliad y Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar blaenorol. Fodd bynnag, recriwtiwyd ac mae aelod newydd o staff yn gwneud y swydd hon bellach.

10.4 Mae trefniadau ariannu'n cael eu trafod ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol mewn perthynas â'r Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol (ISPI). Pe bai'r cynnig cyntaf wedi ei dderbyn, byddai effaith ariannol ar Sir Ddinbych. Ar ôl codi pryderon mae LlC wedi cytuno i adolygu'r prosesau eto. Yr ydym yn disgwyl am benderfyniad LlC a byddwn yn cymryd rhan yn y trafodaethau.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae pwerau mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor